



Cynffon Sidan, Rhagfyr 8ed, Llanelwy. Mae eleni yn aeaf y gynffon sidan.


Alun Williams

## Nodiadau tymhorol (ac anhymhorol)

Wrth fynd am dro am Cefn Du bore ma (26 Tachwedd 2016) codais gyffyllog (cynta'r gaeaf i mi) o mlaen ger wal o dan tyddyn Y Bendas Eithin. O siarad a pherchen Y Bendas cefais wybod hefyd bod ei wraig wedi gweld grugiar goch tua mis yn ôl ar y grugdir gerllaw (ambell un arall wedi son hefyd - fe ddiffasant â'r lle yn y 90au ac efallai eu bod nhw ar eu ffordd yn ôl). A gyda llaw gwelais iar aderyn tô â gweiryng (i godi nyth?) yn ei phig. Nodais hyn fis yn ôl - ond heddiw... o bob diwrnod! (barrug trwm a rhew neithiwr ond diwrnod diawel, digwmwl fel arall).

*Un o brosiectau Cymdeithas Edward Llwyd*

## Llenni crychlyd hwyf



Gwyfyn **llenni crychlyd** yn Gwelfor bore ma [15 Tach 2016, saeth du], yr hwyraf erioed i mi, pythefnos yn hwyrach na'r hwyraf cyn hynny.

Llun: Luned Meredith, wythnos 33 (2013), saeth gwyrd

## Chwydd danadl poethion



12 Tachwedd 2016, Lon Eifion ger Canolfan Garddio'r Fron Goch, Llanfaglan.

**Duncan Brown**  
Chwydd (*gall*) a achosir gan y gwybedyn *Dasineura urticae* yw hwn.

## Coden fwg berffurf yn Hwlfordd



**Lycoperdon pyriforme** coden fwg berffurf

Meddai'r capsiwn gan John Lloyd: "This photo was taken by Tom Morris, Pembs Fungi Recording Group. It was taken in woodland on the outskirts of Haverfordwest. Have you seen so many together before?"

Rhyfeddod! Fy argraff gyntaf, o ran lliw, oedd mai un o'r capiau inc (*Coprinellus micaceus*- cap inc gloyw, wedi colli y 'sglein') oeddynt nes i mi chwyddo'r llun a sylweddoli eu bod yn unffurf ac yn fwy crwn eu siap. Hefyd, mae rhai yn y blaen yn dangos 'coes' drwchus sydd yr un lliw a gweddill y corff hadol. Un o'r codynnau mwg, dybiaf (*Lycoperdon pyriforme*, coden fwg berffurf?). Rwy'n cymryd fod Grwp Recordio Ffwng Sir Benfro wedi ei 'nabod yn bendant- fase cadarnhad y dderbyniol iawn.

**Iwan Roberts**

Mae'r meicolegydd Debbie Evans i'w gweld yn ddigon hapus.

## Cor ieuencid Ibis Tidbinbilla



Llun a theitl: John Bundock

Ibis gwyn Awstralia *Threskiornis molucca*

## Llaw farw




*Alcyonium digitatum*, llaw farw, dwylo meirwon (*dead-man's fingers*). Math o gwrel meddal. Gwelir yn fyw weithiau yn glynnu wrth graig yn isel ar y traeth, ond fel arfer wedi trio ar ol storm, fel yn y ddelwedd.


**Sion Roberts**

Traeth Llanfairfechan  
12 Tachwedd 2016  
Llun Will Waldron (oed 9) > IKJ (ei athro)

## Gwledd o gregyn dyfrgi ar draeth Llanddona



Roedd hi'n dywydd stormus nos lun Tachwedd 21, gwyntoedd cry o'r gogledd ddwyrain. Y dydd Sadwrn wedyn, 26, welais i ganoedd neu filoedd o wylanod [saeth melyn] ar y traeth. Roeddyn nhw yno yn bwydo a'r gregyn oedd wedi dôd i'r lan yn dilyn y storm. "Otter shells" oedd y mwyafrif.



**Gwen Richards**

## Lloer enfawr 14 Tachwedd




Lleud arbennig heno, Tachwedd 14, braidd yn gymylog, tynnais y llun uchod am tua 6.15 p.m. Tynnais y llun yma am 9.15pm. Lliw melyn y lleud blaenorol wedi diflannu. Dyma esboniad NASA : *November's supermoon — a term used to describe a full moon at its perigee, or closest point to Earth during the lunar orbit — will be the biggest and brightest supermoon to rise in almost 69 years. In fact, the full moon won't come this close to Earth again until Nov. 25, 2034. On average, the moon orbits approximately 238,855 miles (384,400 km) from Earth. When a full moon is at perigee, it orbits slightly closer, making it appear up to 14 percent bigger and 30 percent brighter in the sky.*

Alun Williams


## Coch dan adain yn Sbaen - mwy

Yn y rhifyn diwethaf (tud. 4) soniwyd am adar coch dan adain yn cyrraedd Sbaen ym mis Hydref cyn iddynt gyrraedd de Lloegr. Dyma Rhys Jones yn mynd i



chwilota. Cafodd fap o'r *Collins Bird Guide* enwog gyda'r ateb. Adar o Wlad yr Ia sydd yn mynd i Sbaen. O Scandinafia a gwledydd cyfagos y mae adar Prydain yn dod. Dwy boblogaeth ar wahan felly.

## Craf-nant



Tynnwyd y llun hwn ar 27 Mai 1977 yng Nghoed Crafnant, Llanbedr, Meirionnydd. Craf y geifr *Alium ursinum* yw'r planhigyn.

## Ystyr llewyn?

Yn Llên Natur Rhagfyr rydych yn trafod Pais Dinogad a'r gair 'llewyn':

'Fe laddai bysgod o'i gwrwgl  
Fel y lladda llew fân-filod!'

"Tybed ymhle welodd y bardd lew yn y nawfed ganrif yng ngogledd Ynys Prydain?" Hefyd, mae'r gair

'llewyn' yn y darn:

'or sawl yt gyrhaedei dy dat ty ae gicwein  
o wythwch a llewyn a llwyuein.  
nyt anghei oll ny uei oradein'.

'Cath goed' yw 'llewyn' yn ôl y cyfieithiad yn nolen Llên Natur, ond hwyrach bod llew a llewyn yn cyfeirio at yr un anifail. Dyma syniad arall (Cylch-lythyr Cymdeithas Gymreig Canberra, Tachwedd 2007):

*Evidence for lynx in British Isles: Carbon-dating of lynx bones found in Yorkshire caves indicates that they existed into early medieval times. Cultural evidence has been found, too, in the Cymraeg of North-West England. An expert on modern-day lynx, David Hetherington of the Cairngorms National Park Authority, points to a 7th century lullaby written in the Celtic language of the Cumbrian area. Called Pais Dinogad (Dinogad's Tunic), it describes animal pelts which may have been incorporated into the tunic: wild boar, red deer, roe deer and llewyn. Welsh speakers would now interpret that as 'little lion'. Welsh scholar Adrian Price of Cardiff University regards 'lynx' as the most plausible translation, not least because llew shares an origin with lugh, which has been independently identified as the Old Gaelic (pre-AD900) word for lynx.*

New Scientist, p49. 11.08.07 > Peter Edwards

## Cymylau Kelvin-Helmholtz?



Dyma i chi lun o gymylau 'diddorol' uwchben Berffro neithiwr [8 Rhagfyr 2016].

Wil Williams

Tybiaf ai datblygiad pellach o gymylau Kelvin-Helmholtz yw rhain? Gol.

## Wal y Penmaen, mur yr enwau

Wal rwyf wedi codi ger Llyn y Penmaen, Y Bontddu. Rhys Gwynn



Llyn Penmaen: gwaith Rhys Gwynn

## Y blaen-haid a'r ail haid

**Holm-Cultram**, Cumbria, 23 Gorffennaf 23 1652: A cast\* of Bees destroyed in Wedholme Wood by Jo. Browne and Will English

[\*OED: "A second swarm of bees thrown off by a hive in one season - "1662 Fuller Worthies 1.22: 'Though only Stocks of Bees were kept without either Casts or Swarms']

**DYDDIADUR JAMES JACKSON** Trans Cumberland & Westmorland Antiq & Archaeol Soc. XXI (1921) pp 96-129

Meddai Paul Williams: am heidio, mae J.Evans Jones (Rhamant y Gwenyn, 1960) yn dweud:

"...erys o hyd, ymysg llawer o broblemau, un nad yw dyn ronyn yn nes i'w hesbonio nag ydoedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, sef yr heidio, neu godi."

Mae o'n mynd ymlaen i drafod rhinweddau heidiau sy'n codi ym Mai, Mehefin, a Gorffennaf, gan ychwanegu: "Cofiaf imi unwaith...gael haid mor ddiweddar a'r pedwerydd-ar-bymtheg o Orffennaf." [Cymharer cofnod Jackson uchod]. O ran heidio eto, dywed: "Yn yr hen gychod gwellt...byddai'r gwenyn yn heidio bedair neu bumgwaith mewn tymor."

Dyma mae Wil Griffiths yn ddweud (Dyn y Mêl, 2010):

"...rhaf am heidio yn flynyddol ac ar brydiau ddwywaith y flwyddyn os cânt rwydd hynt i wneud hynny....Yn ystod ail a thrydedd flwyddyn o oed y frenhines y bydd yr heidio'n digwydd ran amlaf."

Mae'n son am gael ei haid gyntaf ar y pumed o Ebrill. Ar ôl yr heidio cynta pan mae'r frenhines wedi gadael y cwch, mae un o'r 'tywysogesau' (gair JEJ. 'Gwryf' mae WG yn ei galw) newydd yn gadael efo cyfran o'r gwenyn, ac mae o'n gweld hyn yn drafferthus iawn: "Haid fach fydd hon sy'n cael ei galw...yn 'cast'...Gall yr un peth ddigwydd gyda'r ail wryf...a hefyd y drydedd ac ymlaen [ac arwain at] brinder gwenyn."

## Fel yr hed y wylan

Modrwywyd hon yn **Plön**/Ascheberg Moweninsel, ger Hamburg, yr Almaen (25 Mehefin 2014: 54° 9'N; 10°



22'E) ac fe ddaeth i'r fei ger Aberffraw, Mon, (2 Medi 2016: 53° 18'N; -4° 23'E), taith o c.700 milltir

Wil Williams > Kelvin Jones  
Roedd yn bosibl darllen rhif y fodrwy ar goes y wylan.



## Pysgod ar werth



...yn Gymraeg yng Nghricieth (Tachwedd 2016), **lledod**, **draenogod mor** a **penfreision**. Cliciwch arnynt i cael gwledd.

## Tirlithriad Pistyll

*Do you have any recall of the date, year would do, of the Cataclismic landslide that happened below Pistyll. I'm not talking of the **landslide at Nefyn** that took place on 2nd Jan 2000 [2001 Steve?] where a German tourist was killed. The Pistyll landslide was I think some time earlier, possibly in the 1990's and about 5 hectares (12 acres) of land moved.*

Stephen Roddick

3 Ion 2001 Gweld tirlithriad mawr yn y Diffwys, Abergwyngregyn o stondin golosg top Wern Fudr. Tirlithriad yn Nefyn wedi lladd person mewn car.

Dyma gofnod o'r tirlithriad yn Nefyn 2001. Mae Steve angen gwybod hyn ar gyfer ei waith gyda'r Arolwg Ordians. Oes cof gan unrhyw un o dirlithriad tebyg ym Mhystyll gerllaw?

... a mwy am dirlithriadau Abergwyngregyn



Tirlithriad yn Y Diffwys, Aber Chwefror 1985 (Mae Diffwys Aber yn dioddef tirlithriadau yn lled-aml)

Duncan Brown

## Cacwn anhymhorol

Roeddwn i'n rhoi dillad allan ar y lein [14 Rhag] a dyma'r cacwn mwya welais i 'rioed yn ffluo heibio ar frys. Un reit dywyll oedd o. Meddwl buasech yn hoffi cael clywed hynna. Mae yna fân bryfetach yn hedfan o uwchben y pwll hefyd. Mae'n anhygoel o gynnes yma [Llaneilian].

Mair Williams

**Cofiwch glicio'r geiriau mewn coch i gael mwy o wybodaeth**

Gwymon bwytdwy Roddy McClean (addasiad) 2

Enw Cymraeg a Saesneg	Enw yn yr Aeleg a'r tarddiad posibl	Nodiadau diwylliannol (o'r Saesneg)	Sylwadau Sion Roberts
Gwellt y gamlas (dirgelwch pam!) <i>Eelgrass</i> <i>Zostera marina</i> a dwy rywogaeth arall	<i>Milearach</i>	Planhigyn blodeuol (nid gwymon) yn tyfu o dan lefel isa'r trai ar welyau tywodlyd, ac i'w weld amlaf ar y penllanw.  <i>Possibly originated in bile 'blade of grass'. meddai Roddy</i>	"In Victorian times it was a favourite packing for delicate glass and china, and when the wireless epoch dawned immense quantities were used to insulate the sound proof walls of Broadcasting House." Brightwell p70
(Gwymon) perfedd gwyredd <i>Gutweed</i>	<i>Glasag Chaolanach</i> 'intestinal sea lettuce'	Mae'r enw yn cyfeirio at ei debygrwydd i golyddion	<i>Enteromorpha intestinalis</i> enteron [G] = bowels, intestines, + morphe [G] = form or shape. <i>intestinum</i> [L] = intestines, + -alis, = -belonging to, -pertaining to Gutweed
Gwymon codog bras <i>knotted wrack, egg wrack, yellow tang</i> <i>Ascophyllum nodosum</i>	<i>Feamainn Bhuilgeanach</i> 'bladder seaweed'	Fe'i defnyddir i wrteithio caeau neu fel ychwanegyn bwyd i dda	<i>Ascophyllum nodosum</i> <i>askos</i> [G] = a waterbottle made of leather. + <i>phyllon</i> [G] = leaf. <i>nodosum</i> [L] = to be covered in lumps, or knots. Lumpy, nobbly, knotty, warty. < <i>Nodus</i> = knot
Môr-wiail byseddog, brwal <i>oarweed, sea tangle, 'kelp'</i> <i>Laminaria digitata</i>	<i>Stamh</i> (the name includes both <i>Laminaria digitata</i> and <i>L hyperborea</i> – 'Cuvie': tarddiad anh.)	Fe'l ceir ym mharth isaf y traeth a thu hwnt. Fe dyf y drwchys ac yn drechol i rywogaethau eraill. Bu'n sail ar un adeg i ddiwydiant pwysig yng ngogledd yr Alban	<i>Laminaria digitata</i> <i>Laminaria</i> [NL] = similar to a slab, plate, leaf or layer. <i>digitata</i> [L] = having fingers Descriptive of the frond.
Pleth y môr <i>Saccorhiza polyschides</i> <i>sea plait, sea furbelows*</i> (*math o addyrn)	<i>Sgrothach</i> 'having a tough outer skin?'	Gwymon mawr praff a welir fwyaf ar ol ei daflu l'r traeth ar ol storm.	<i>Saccorhiza polyschides</i> pleth y môr ( <i>sea plait</i> )

Storm fawr Tachwedd 1893

Tachwedd 1893; Sanday, Ynysoedd Erch: *In winter gales enormous ware bracks\* may be driven ashore. It has been calculated that on one such occasion in 1947 about 13,000 tons were cast up on Sanday alone. Even greater was the legendary ware brack of November 1893 which kept crofters busy with horse and cart for three months and still left plenty of tangles [coesau gwymon y laminariae] for everyone. On such occasions the broad band of glittering tangles four or five feet deep might stretch along the entire length of the beach and all hands were needed to gather them. [\*ware = y gwymon sydd yn tyfu o dan lefel y trai isaf; cymh. y tang neu rockweeds sy'n tyfu rhwng y llanw uchaf a'r trai isaf: brack = gwymon sydd wedi ei olchi i'r traeth ar y penllanw (brock, drec?)]*

Thompson, William PL (1983) *Kelp-making in Orkney*. The Orkney Press

16-20 Tachwedd 1893: severe storm. Deep depression (below 970 mb) moved slowly east across Ireland and Scotland, severe northwesterly gales in rear of low, severe damage both on land and at sea (17 November), people drowned off northern coasts, temperatures fell by 10 °C (18 °F) over England as winds veered from north to northeasterly (18 November), heavy snowfall in east Britain, deep drifts 1.5 m (5 ft), trains halted at Cambridge (19 November), many trees blown down, 298 shipwrecks and 293 people drowned on east coast alone.  
Kington, J. 2010, *Climate and Weather NN*

17 Tachwedd 1893, West Shore, Llandudno, 17-20 Nov 1893: A tremendous gale. One of the casualties was the *Ivanhoe* of Glasgow carrying a cargo of oranges from Liverpool to Cardiff. It narrowly missed being dashed to pieces on the Great Orme

Ivor Wynne Jones: *Shipwrecks of North Wales*

18 Tachwedd 1893, Aberdaron: Gwynt mawr o'r Gogledd. Ellis y Postman wedi troi y car a brifo ei ben. Tori llawer ar y tai

Dyddiadur William Jones, Moelfra, Aberdaron

## Bwch y Danas



yn y brynau ger coedwig Coed y Brenin 19 Tachwedd 2016  
Keith O'Brien

## Dreinwyfyn pluog... arall



I've just caught up with **no. 106** and thought you might be interested in the attached photo of a very darkly marked Feathered

Thorn caught recently in my newly home-made moth trap. Sue Lindsay's one is typical, and it does seem to be quite a varied species. On mine the bushy antennae which gives it its name can be seen. The Pale Tussock by the way is common in this area, but I don't think any hop growers need worry. I found a caterpillar in Coed y Brenin several years ago although I wouldn't recommend using it as a toothbrush!!

Malcolm Watling

## Y Creyr bach a newid hinsawdd



Nid yw'r **creyr bach** yn aderyn egsotic ac yn arwydd o Newid Hinsawdd wedi'r cwbl. Roedd yn amlwg yn ddigon cyfarwydd i loddestwyr, gwneuthurwyr hetiau tair canrif yn ol a'r artist Thomas Bewick

## I bob Goleiath ei Ddafydd!

Yn **rhifyn 104 (tudalen 6)** cawsom hanesyn am gragen deuddarn yn lladd trochydd gyddfddu. Dyma hen




hanesyn nid anhebyg:  
*On October 15th, 1928, I was informed by a young man that he had found on the previous day, on Filby Broad, Norfolk, a large bird floating dead with a live eel fastened round its neck. My informant had killed the eel by a cut at the back of the neck. I went over at once to see the bird, which proved to be a Cormorant. It was hanging on a gate-post to dry and the eel was then still firmly fixed in the position shown in the photograph. It was evident that the Cormorant had struck the eel through the eye with its upper mandible, the curved tip of*

*which prevented its withdrawal. Knowing that an eel on being hooked can instantly tie itself round hook and line in two figure eights and remain so, it is easy to understand how it became tied round the neck of the Cormorant. Thus, neither could release itself, and the Cormorant, if not drowned before it reached the surface, must have been so shortly afterwards, as the weight of the eel, which was over a pound, would have dragged its head down while its mouth was all the time wedged open. The constriction of the eel round the neck must also have been severe, as the mark was very visible when its strangle-hold was relaxed some hours after death.* A. H. PATTERSON BRITISH BIRDS. [VOL. XXII.]

## Camdreuliad tylluannod?

THE photograph here reproduced represents a disgorged pellet of a Tawny Owl (*Strix a. sylvatica*) which was picked



up at Keswick, Norwich, under a scots pine much used by Tawny Owls, and under which their pellets are often found. This remarkable pellet contains a perfect skull and beak of the Common Snipe (*Capella gallinago*). It seems almost incredible that the Owl could have swallowed the Snipe's head and beak without injury to itself, or without getting its throat perforated by the long bill. It presumably swallowed it the wrong way of the feathers.

British Birds



Duncan Brown

Copi o hen sleid gyda'r capsion "pellen tylluan wen gyda giach" a'r label yn dangos dyddiad o 1988. Y safle lle'i cafwyd bellach yn anghof.

## Taith a hanner rhwng Dinas Mawddwy a Llanuwchllyn

Mae Munro Edwards yn ei gofnodion hela yn enwi rhai o nodweddion ei deithiau yn ei ddull Seisnig ei hun. Mae nhw'n werth eu cofnodi weithiau fel tystiolaeth y ffurfiau llafar a fyddai efallai ar led yn y cyfnod. Dyma ystyried un **cofnod, sef 17 Awst 1882**. Dyma rai o'r nodweddion mae Edwards yn cyfeirio atynt: Bont Llyn Rhiddyn, Wein Camddwr [sic Waun Camddwr SH85 20], Wern Goch [= Waun Goch SH87 20?], Wein Ludgan [sic. Gwaen Lydan SH88 20?], "cheepers", Sir Edmund's watcher. Dyma ddywed Rhys Gwynn, awdurdod ar enwau mân nodweddion yr ardal honno:

Sir Edmund Buckley - gododd Y Plas yn Ninas Mawddwy a benthg ei enw i un o dafarndai yr ardal. Bwlch y Groes ydi enw'r man uchaf fel rydych yn croesi o Lanymawddwy tuag at Lanuwchllyn. Dwi'n gwybod am Fwlch yr Hirddyn/Sirddyn - rhan o'r hen lwybr oedd yn mynd o Gwm Croes (ochr Llanuwchllyn) i Lanymawddwy [ond nid Pont Llyn Hirddun (= Rhiddyn)]. Ond dwi ddim yn sicr am Bont Llyn Hirddyn, oni bai eu bod wedi cychwyn o'r Pennant, naill ar y tro egr yna ar waelod y ddringfa i Fwlch y Groes, lle roedd cwmniau ceir ers talwm yn profi brecs cyn gwerthu'r model diweddaraf, neu ymhellach i lawr y dyffryn wrth Bont y Pennant, lle mae yna o leiaf bont amlwg. Mae'n bosib eu bod wedi cerdded i fyny'r Llaethnant i gyferiad Creiglyn Dyfi, a chodi i'r Drysgol, ar hyd y Drws Bach a dod i lawr am Waun Camddwr, ac yna troi i'r dwyrain am Waun Goch a Waun Lydan, a dod i lawr o fanna i'r Pennant cyn cychwyn eu 'stiff climb' i ben y bwlch— tipyn o gerdded!

Rhys Gwynn


Mae "rhiddyn" yn Pont Llyn Rhiddyn yn swnio fel ffurf lafar ar "hirddyn" yn hytrach na Seisnigiad carbwl. Oes yn bobl o'r ardal sydd yn gwybod am bont o enw tebyg, neu well fyth am lyn yn dwyn yr enw yna? Mae **BWLCH MAEN YR HIRDDYN** ym Mawddwy wedi ei gofnodi yn **rhestr Melville Richards**.

### Tw whit tw hw



Byddaf yn clywed galwad Tylluan frech yn aml yn Nhrefnant, galwad *ke-wick* neu *hoo-hoo-ooo*, ond anaml iawn y byddaf ddigon lwcus i weld un heb son am gael cyfle i dynnu llun. Nid y llun gorau dwi'n gwybod, dim ots pa ongl roedd dail neu frigau yn difetha'r llun.

Alun Williams



### Cynefin praidd - llwyth, teulu ynteu unigolion

Roedd y sylw yn **rhifyn 105** am "gynefin" dwy ddafad ddu mewn caeau'n ddi-ddorol oherwydd fy mod wedi clywed straeon tebyg am ddefaid mynydd. Yn o gystal â chynefin y praidd, mae rhai ffermwyr yn adrodd gweld dafaid unigol yn yr un man drwy'r amser. Maent yn sylwi ar hynny yn achos ychydig o ddefaid hawdd eu hadnabod, er enghraifft oherwydd nodweddion megis clust gam neu farciau lliw anghyffredin, ond efallai ei bod yn wir am lawer mwy. Ydy cynefin praidd yn gasgliad o gynefinoedd unigolion neu deuluoedd?

Jackie Wilmington

### Cyfri'r gwas neidr tindrwm yn 2017



Ymunwch a helfa'r **gwas neidr tindrwm** yn 2017. Mae'n gyfyngedig erbyn hyn i ychydig o afonydd araf di-lygredd yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn awyddus i ddeall mwy am ddsbarthiad y gwesyn hwn i'w ddiogelu - mae'r cofnodion ar hyn o bryd yn glytiog ac yn hen. Does dim angen profiad arbenigol i ymuno - cewch wybod popeth sydd ei angen oddiwrthym. Mi roi cyn gymaint neu leied o amser ag yr ydych yn dymuno. Ac mae'n hwyl.

Os ydych yn byw yng nghyffiniau'r afon Ddyfrdwy, dyfroedd canol yr Hafren, neu'r Wy cysylltwch a Chydlynnydd y Prosiect David Tompkins: david.tompkins@hotmail.co.uk neu galwch ein Swyddog Cazdwraeth, Genevieve Dalley, on: 02082256800. Ymwelwch **yma** am fwy o wybodaeth

### Gweld ser gefn dydd golau

Roedd fy nhaid Arthur Jones yn gweithio yn Chwarel Dorothea ger Nantlle. Roedd yn ofynol iddo fynd i lawr siafft o flaen Cloc Mawr (pump house) i wirio y pypmpiaua gwagio'r dŵr. Roedd yn dal ei fod yn gweld ser o waelod y siafft ar ddiwrnod clir a braf. A yw hyn yn bosib? [cymharer Owain Gwyrfaei **Bwl 8, t. 4**].

Dilwyn Jones



# Llygaid y Dydd

CYMDEITHAS  
GWAITH MAES  
arweinwyd gan ymroddwyr ym 1974

Llygad y Dydd

Cymdeithas Gwaith Maes

Atebion i gyrraedd [golygyddol@gwaithmaes.org](mailto:golygyddol@gwaithmaes.org) erbyn 31ain o Ionawr 2017. Mae gwobr o £10 i'r ennillydd.

ADAR A GWLEDYDD Y BYD - O ba wlad mae'r adar isod yn dod? Cyfunwch y canlynol.



1. PAUN



2. ALARCH DOF



3. KOKABURRAS



4. TYLLUAN GORNIOG FAWR



5. TYLLUAN YR EIRA



6. PELICAN CEFN BINC

GWLEDYDD :-

- a) AFFRICA
- b) AMERICA
- c) TWNDRA'R ARCTIC
- d) AWSTRALIA
- e) CARIBI
- f) EWROP AC ASIA
- g) INDIA



7. FFLAMINGO